CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

19 Ionawr 2016, Gosen, Llangwyllog

am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap rhobert, C McGregor, D Morgan, D Pritchard, A Williams, G D Williams, W Williams, A Wyn, PCSO S Williams	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, W Vaughan, D Roberts, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir), R G Parry (Cyngor Sir).	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng A Wyn.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 17 Tachwedd 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Llangwyllog** - Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan PCSO M Hughes yn dweud ni fydd Gan Bwyll yn cynnig presenoldeb yn Llangwyllog oherwydd bod gwasanaeth newydd ar gael: Community Speed Watch. Bydd y clerc yn cysylltu a Gan Bwyll am fwy o wybodaeth
4.2	**Gofeb Talwrn** - Mae'r clerc wedi derbyn ymateb gan Inigo Jones. Ni fydd y cwmni yn gallu gwneud gwaith ar y gofeb ond maent yn cynnig plaque i osod ar y gofeb. Gofynwyd i'r clerc cael pris am plaque.
4.3	**Arwydd - Neuadd** - mae'r Clerc wedi cyflwyno cais am yr arwydd a bydd yn atgoffa y Cyngor Sir
4.4	**Lon yr Ysgol** - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.5	**Cais cynllunio "chalets" Mynydd Bodafon** - Darllenwyd ebost gan Mr Dewi Francis Jones yn ymddiheuro nad oedd yr Adran Cynllunio wedi anfon copi o cais cynllunio hefyd yn gadarnhau fod y cais bellach wedi ei dynnu'n ol gan yr ymgeisydd (ers y 7fed o Ragfyr).
4.6	**Hysbysffwrdd Capel Coch** - mewn llaw
4.7	**20myh tu allan i Ysgol Talwrn** - mewn llaw
4.8	**Coed - Maes y Coed**, Talwrn Bydd y clerc yn trefnu cyfarfod ar y safle gyda Ed Henderson, Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	Mr D F Jones - ymateb i cwyn y Cyngor - gweler 4.5
	Llofnod…….Cadeirydd 16.02.16

5.2	23C312D/VAR cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod 02 (yn unol a'r cynllun) a dileu amodau 09 (ffenestri a drysau pren) a 10 (offer dwr glaw haearn) o caniatad cynllunio rhif 23C312 (newid defnydd yr adeilad allanol i 5 annedd yn Bryn Gwallen, Talwrn - dim sylwadau
5.3	23C324A cais llawn i godi annedd ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir a gosod tanc septig ar dir gyferbyn a Bryn Felin, Capel Coch- dim sylwadau
5.4	23C312C cais llawn i ddiwygio'r cynllun a gafodd ei gymeradwyo yn flaenorol i gynnwys garej breifat yn Uned 5, Bryn Gwallen, Talwrn - dim sylwadau
5.5	23C329A codi annedd newydd ar dir yn Bryn Tirion, Talwrn - dim sylwadau
	Gwasanaethau Tai
5.6	Ymgynghoriad ar Ffordd Newydd o Osod Tai Cymdeithasol ar Ynys Môn - ail ystyried yn y cyfarfod nesaf (bydd y clerc yn anfon yr gwybodaeth trwy ebost)
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Jenny Spillman** - darllenwyd ebost gan Mrs Spillman yn dweud bod rhywun yn y pentref (Capel Coch) gyda diddordeb ymuno a'r Cyngor. Mae'r clerc wedi hybysebu sedd wag yng Nghapel Coch a heb derbyn ceisiadau. Bydd y clerc yn cynnig i'r person cyflwyno cais.
6.2	**Yr Heddlu** - gor-yrru Llangwyllog - gweler 4.1
6.3	**Inigo Jones** - y Gofeb - gweler 4.2
6.4	**Mr J Goodman**, 5 Tai Newydd, Talwrn - Darllenwyd ebost gan Mr Goodman i'r Cyngor Sir yn cwyno am y palmant newydd yn Talwrn, hefyd lled y lon. Mae'r Cyngor Sir wedi ymateb.
6.5	**Unllais Cymru** - agenda 21.01.16 (gwybodaeth yn unig)
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfyniwyd talu Yswiriant Zurich £251.85
7.2	Precept 2016/17 - Penderfyniwyd peidio codi y precept
7.3	Penderfyniwyd talu Ol-daliadau TAW £5.50 a cyflog y clerc £44.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mae dwr yn hel ar y lon wrth ymyl Stone Science (Lon Talwrn - Pentraeth). Bydd y clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
8.2	Bydd y clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir gosod darn o palmant rhwng Bodlondeb - Hafan Deg
	Llofnod……Cadeirydd 16.02.16